# PWYLLGOR ARCHWILIO 29-09-11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gethin G. Williams (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, T.G. Ellis, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Aeron M. Jones, Charles W. Jones, R.L. Jones

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Dafydd W. Williams (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dylan Edwards, Huw Edwards, Selwyn Griffiths, John G. Jones, Ioan Thomas a Sian Gwenllian (Arweinydd Portffolio Cyllid)

<u>Diolchiadau</u>
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod y Cynghorydd Gwilym Williams wedi ildio ei sedd ar y pwyllgor hwn oherwydd i'r Grŵp Annibynnol roddi un sedd i'r Aelod Unigol. Diolchwyd i'r aelod am ei wasanaeth i'r pwyllgor hwn tros y blynyddoedd.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Greenly-Jones os oedd yn ofynnol iddo ddatgan buddiant personol yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiadau Cyfrifon 2010/11 y Gronfa Bensiwn gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Pensiynau'r Cyngor.

Fe'i cynghorwyd gan y Pennaeth Cyllid nad oedd yn fuddiant sy'n ei rwystro rhag cymryd rhan yn y drafodaeth oherwydd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ar ran y Cyngor.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2011, fel rhai cywir.

## 3. DATGANIAD CYFRIFON 2010/11

### i) Datganiad o'r Cyfrifon

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon.

### ii) Adroddiad ffurfiol "ISA 260"
### a) Datganiadau Cyfrifon 2010/11 Cyngor Gwynedd

Yn unol â threfn Archwilio Blynyddol "ISA 260", sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa

Archwilio Cymru (SAC). ‘Roedd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru’n bresennol i gyflwyno’r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno’r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 yn ogystal â’r incwm a’r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o’r farn bod yr adroddiadau’n cyflwyno’r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2010/11.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriodd Rheolwr Lleol SAC at ddau camddatganiad nas cywiriwyd sef –
a) Nad yw’r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth am gyfraniadau pensiwn ar yr elfen ôl-dâl o’i setliad cyflog cyfartal ac felly ym marn SAC dylai’r Cyngor gydnabod rhwymedigaeth o £528,000 yng nghyfrifon 2010/11.
b) Nad yw’r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth llawn mewn perthynas â chapio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn. Ym marn yr archwiliwr dylai’r Cyngor wneud darpariaeth ychwanegol o £185,000 ar ben y £3,915,000 a ddarparwyd eisoes.

Cyfeiriodd y Rheolwr at ddau bryder ynglyn ag agweddau ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu a’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) newydd, gan nodi gwelliannau posibl.

Nododd y Rheolwr hefyd bod y Côd Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor ddatgelu manylion trafodion â phartion cysylltiedig yn ei gyfrifon. Er mwyn casglu’r wybodaeth berthnasol, ysgrifennwyd at yr aelodau yn gofyn am fanylion buddiannau partion cysylltiedig erbyn 21 Ebrill 2011. Ar adeg yr archwiliad ym Medi 2011, ‘roedd 13 o aelodau’r Cyngor yn parhau heb ymateb.

Mewn ymateb i’r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn gyffredinol yn diolch am waith yr archwilwyr ac yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod bod cyfrifon 2010/11 yn gywir a theg. Nododd iddo ymateb yn rhesymol i ddau o’r materion uchod sef yr elfen ôl-dâl a safle gwaredu gwastraff Cilgwyn yn ei lythyr at yr Archwilydd Penodedig a thynnodd sylw’r pwyllgor atynt.

Mewn perthynas â’r ddau bryder parthed agweddau ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu a’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Penodedig, hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y Cyngor wedi dibynnu ar gyhoeddiadau a datganiadau cenedlaethol gan CIPFA sy’n dehongli gwahanol faterion. Nododd mai datganiadau ariannol 2010/11 yw’r rhai cyntaf i gael eu paratoi dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a diolchodd i’r tîm a fu’n gyfrifol am baratoi’r cyfrifon swmpus o fewn amserlen eithaf caeth. Parthed y “cyfrifon personol”, nododd y swyddog y bu cynnydd sylweddol gyda’r gwaith ar hwn.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i Amanda Hughes am ei chydweithrediad yn yr archwiliad a diolchodd hefyd i Dave Jones, Swyddfa Archwilio Cymru am ei arweiniad tros y blynyddoedd gan ddymuno adferiad buan iddo. Cytunwyd i anfon llythyr ato ar ran y pwyllgor.

**b) Datganiadau Cyfrifon 2010/11 y Gronfa Bensiwn**

Fel yr uchod, adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno sefyllfa ariannol y gronfa bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2010/11.

Nododd y Rheolwr nad oes unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, cyfeiriodd at ddau bryder parthed agweddau ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu a'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol gan nodi gwelliannau posibl. Nododd hefyd na fu i bob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ymateb gyda datganiadau buddiant er sicrhau bod trafodion partion cysylltiedig yn cael eu datgelu. Yn ychwanegol, nododd un gwendid perthnasol yn y rheolaethau mewnol.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod bod cyfrifon y gronfa bensiwn am 2010/11 yn gywir a theg. Nododd iddo ymateb i'r materion uchod yn ei lythyr at yr Archwilydd Penodedig a thynnodd sylw'r pwyllgor atynt.

Codwyd cwestiynau gan rhai o'r aelodau ar y cyfrifon ac ymatebodd y swyddogion iddynt.

**iii) Llythyrau Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar gyfrifon terfynol 2010/11, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid lythyrau drafft at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio. 'Roedd y "llythyrau cynrychiolaeth" hyn yn cynnwys gosodiadau ynglyn â datganiadau ariannol y Cyngor a datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2010/11. Eglurodd iddo ddrafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd, sef y Pwyllgor Archwilio.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**4. RHEOLAETH TRYSORLYS 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2010/11, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Chwefror

2010. ‘Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheolaeth dyled, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â’r dangosyddion darbodus.

Nododd y Pennaeth na fu i’r Cyngor fuddsoddi’n uniongyrchol mewn unrhyw fanc dramor yn ystod 2010/11 na hyd yn hyn yn ystod 2011/12. Yn ystod 2010/11 defnyddiwyd dau fanc a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig ond sydd yn is-gwmniau i fanciau tramor, sef Santander (Sbaen) a Clydesdale Bank (Awstralia) ond erbyn hyn nid yw’r Cyngor yn defnyddio Clydesdale Bank.

Mewn perthynas i gwestiwn gan aelod parthed cael buddsoddiad tymor hir i gefnogi pobl o fewn Gwynedd i brynu eu tai, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y clustnodwyd tros £1m ar gyfer prynwyr tro cyntaf i gael morgeisi. Eglurodd bod ymchwil yn parhau i sicrhau cynllun effeithiol fyddai’n cynorthwyo pobl leol i gael morgeisi gydag un o’r banciau neu’r cymdeithasau adeiladu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 5. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

### a) Adroddiad i’w ystyried ar gais y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd – Gwaith Uwchraddio Pont Briwet

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o’r Adran Rheoleiddio fynychu’r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau ynglyn â’r risgiau sy’n gysylltiedig â chynllun uwchraddio Pont Briwet ac unrhyw faterion eraill sy’n codi o’r adroddiad archwiliad “Gwaith Uwchraddio Pont Briwet”.

‘Roedd hyn yn dilyn ystyriaeth o’r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2011. Ychwanegodd y swyddog mai bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau cadarn a digonol ar gyfer cyflawni gwaith uwchraddio ar y bont.

Rhoddodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd amlinelliad o rôl y Cyngor ynglyn â’r cynllun. Nododd y buddsoddwyd oddeutu £90,000 o arian y Cyngor a chafwyd grantiau tuag at waith cychwynnol dichonoldeb er canfod arian o sectorau eraill. Cafwyd ymrwymiad o £6m gan Network Rail, oddeutu £4m gan Consortiwm Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) ac oddeutu £10m o arian Ewrop tuag at y cynllun. Ar hyn o bryd felly mae cyfanswm yr ymrwmiadau hyn oddeutu £20m. Ymgymerir â llawer o waith i sicrhau y gellir gwireddu’r cynllun am hynny. Risg amlwg fyddai os na ellid gwireddu’r cynllun am y swm hwn, pwy fyddai’n gyfrifol am dalu’r arian ychwanegol. Nid yw’r Cyngor yn bwriadu rhoddi ychwaneg o arian tuag at y cynllun a dylid sicrhau felly y rheolir y cynllun o fewn y cyllid a sicrhau hefyd bod yr arian grant yn cael ei wario’n ddilys. Nododd y gwariwyd £1.2m hyd yn hyn ar y gwaith cychwynnol o ddatblygu’r cynllun ac mai rhan o arian TraCC sy’n talu am hanner y swm hwn gyda Network Rail yn talu’r hanner arall. Mewn perthynas ag arian Ewrop, mae eu canllawiau a’u gofynion hwy yn llawer fwy caeth o safbwynt bodloni’r safonau a.y. ac mae risg sylweddol ynghlwm â hynny oherwydd y byddai’n bosibl iddynt gymryd yr arian yn ôl gan y Cyngor. Parthed arian Network Rail, maent hwy yn awyddus i gymryd rhan helaeth o reolaeth y cynllun hwn ond ddim bob amser yn fodlon derbyn y risg. O ran

amseriad y cynllun, nododd ddau brif risg sef pryniant tir trwy orfodaeth a hawliau cynllunio/amgylcheddol/dymchwel y bont presennol.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg pe na fyddai'r cynllun yn mynd rhagddo, yna ni fyddai risg o orwariant. Fodd bynnag, gan mai un o amcanion y Cyngor yw adeiladu pont newydd gan ei fod yn cael ei adnabod fel amcan strategol o bwys i'r ardal, mae methu cael pont newydd yn risg sylweddol ynddo'i hun.

Gofynnodd aelod os oedd bwriad gan yr Uned Archwilio i gyflwyno adroddiad pellach ar yr archwiliad hwn yn ystod y flwyddyn. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y bydd y mater yn rhaglen waith yr Uned Archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd i reolwyr yr Adran Rheoleiddio er gweithrediad.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Awst 2011**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2011. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 17 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 2 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 7 adolygiadau grant
- 3 archwiliadau dilyniant
- 1 archwiliadau ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 10 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 22 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau'n unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol:-

**Deddf Diogelu Data – Teledu Cylch Cyfyng**

Nododd aelod ei bod yn angenrheidiol bod y contractau a roddir i'r cwmniau bysiau yn mynnu y gosodir teledu cylch cyfyng ar fysiau ysgolion er mwyn sicrhau bod y plant yn ymddwyn yn briodol. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, wrth osod teledu cylch cyfyng mewn adeiladau neu ar fysiau ysgol, mae'n ofynnol i sefydliadau fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth sydd angen cydymffurfio ag ef wrth osod system o'r fath.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod nifer o dacsis a bysiau mini yn cludo plant i ysgolion ac y dylai unrhyw gytundeb trafnidiaeth trwy Wynedd sy'n ymwneud â hyn gynnwys gosod system teledu cylch cyfyng o fewn y cerbydau hyn. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n bosibl gofyn i'r Adran Addysg roddi sylw i'r mater. Cytunodd yr aelodau â'r awgrym hwn.

**Treth Cyngor – Casgliadau ac Ad-Daliadau**

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Pennaeth Cyllid bod y drefn o gau Swyddfa Arian, Neuadd y Dref, Bangor wedi ei gadarnhau a'i weithredu ers tro mewn cysylltiad â chynllun arbedion y Cyngor.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Datblygu Chwaraeon**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Darparu a Hamdden yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Trefniadau Technoleg Gwybodaeth i Aelodau**

Cyfeiriodd aelod at y pwynt bwled cyntaf ym marn yr archwiliad sy'n nodi "O ran diogelwch gwybodaeth ac i ostwng ar wariant, dylid gwthio ymlaen i sefydlu trefn fel bod pob dogfen (cyfrinachol ac arferol) yn cael ei anfon i aelodau ar ffurf electroneg yn yr un modd â chofnodion a rhaglenni ar hyn o bryd, drwy hysbysu aelodau (neu ddarpar ymgeiswyr) mai dyma yw'r unig ffurf y bydd modd iddynt gael mynediad at y dogfennau". 'Roedd o'r farn bod y drefn hon yn annheg ac yn arbennig ar gyfer darpar ymgeiswyr. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n fodlon tynnu sylw'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol at farn aelodau'r pwyllgor. Nododd iddo ddeall wrth gynnal yr archwiliad mai dyna yw bwriad yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol sef cysylltu â darpar ymgeiswyr cyn yr etholiad ym Mai 2012 i gyflwyno'r agweddau technoleg gwybodaeth y disgwylir i aelodau eu defnyddio ac yn derbyn ac yn cefnogi egwyddor y bwriad hwn. Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Gweithgor Aelodau at y mater.

Gofynnodd aelod arall pam bod angen newid y cyfrinair ar y cyfrifiadur yn fisol. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod safonau diogelwch cyfrifiaduron "CoCo" yn gosod amodau parthed cael mynediad i wybodaeth. Nododd ei bod yn rheidrwydd i newid y cyfrinair bob tri mis.

**Cynnal a Chadw'r Gaeaf**

Nododd aelod i'r archwiliad hwn dderbyn categori barn "B" ond o ystyried y gaeaf caled a gafwyd y llynedd bod lle i longyfarch yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol am allu cynnal y gwasanaeth dan y fath amgylchiadau.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn eu llongyfarch ar eu gwaith caled yn ceisio ymdopi â'r sefyllfa y gaeaf diwethaf dan amgylchiadau anodd.**

**Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y penderfynodd y pwyllgor eisoes bod y Pennaeth Adran Rheoleiddio yn mynychu'r cyfarfod nesaf i drafod dau adroddiad arall ac, 'roedd o'r farn y dylid ei wahodd ar gyfer y mater hwn yn ogystal. Derbyniodd yr archwiliad hwn gategori barn "CH" oherwydd nad oedd trefniadau mewn lle yn yr Uned Parcio i gysoni'r incwm a gesglir o'r peiriannau parcio talu ac arddangos nac i fonitro a gwirio bod y peiriannau'n

cael eu gwagio yn unol â'r cytundeb. Cyfeiriodd at achos lle y cafodd rhai o'r peiriannau hyn eu dwyn. Nododd bod y cwmni a oedd yn gyfrifol am wagio'r peiriannau heb wagio rhai o'r peiriannau hyn ers misoedd. Yn ychwanegol, er mwyn rheoli'r cytundeb, 'roedd yn hanfodol bod y cwmni'n cyflwyno adroddiadau er mwyn cysoni'r incwm, ond nid oedd hynny'n digwydd.

**PENDERFYNWYD cytuno i wahodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011 i egluro'r sefyllfa.**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin i 31 Awst 2011 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2011/12.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 2 Medi 2011 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Crewyd papurau gwaith | 3 |
| Adolygiad Canolbwynt | 1 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 21 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 11 |
| Adroddiad Terfynol | 30 |
| Wedi ei gau | 1 |
| **Cyfanswm** | **106** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2011/12 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2012. Rhoddodd fanylion am broffil y dangosydd fesul chwarter. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Awst 2011 yn 29.25% ac allan o'r 106 archwiliad unigol yng nghynllun 2011/12, 'roedd 30 wedi eu rhyddhau'n derfynol erbyn diwedd y chwarter ac un arall wedi ei gau. Cadarnhaodd y cyrhaeddwyd y targed o 40% erbyn dyddiad y pwyllgor, ac felly mae'n unol â'r proffil.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog nad oes addasiadau i'r cynllun i adrodd arnynt i'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2011/12.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.20pm